Annwyl aelodau Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol,

Ysgifennaf atoch fel cyhoeddwr The National Wales a Corgi Cymru.

Mae sefyllfa'r diwydiant newyddion yng Nghymru yn wynebu argyfwng. Mae costau argraffu wedi cynyddu 100% ers dechrau'r flwyddyn, ar ben hyn mae costau dosbarthu wedi cynyddu oherwydd y cynnydd yng nghostau tanwydd.

Ynghlwm a hyn mae yna ostyngiad mewn refiniws hysbysebu oherwydd yr effaith ar yr economi ac mae gwerthiannau a thanysgrifiadau lawr oherwydd yr argyfwng costau byw.

Mae'r sefyllfa yng Nghymru llawer gwaeth yng Nghymru nag y mae yn Lloegr a'r Alban.

Heb gefnogaeth ariannol dros dro ar y diwydiant mae peryg y bydd teitlau yn diflannu. Bydd The National Wales yn dirwyn i ben o fewn y mis neu ddau nesaf.

Gobeithio gwnewch chi gytuno y bydda'i hyn yn cael effaith negyddol iawn ar ddemocratiaeth yng Nghymru, a hynny ar adeg lle mae angen mwy o newyddion annibynnol yng Nghymru nag ar unrhyw adeg o'r blaen.

Oes modd gofyn i chi, fel pwyllgor, trafod y mater ar frys?

Yr eiddoch yn gywir

Huw Marshall

Cyhoeddwr